Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
23/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/03/2023

# Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol: 978-1-80535-646-2

Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022

Awduron: Hayley Randall, Shannon Richards, Jonathan Owens and Sam Sullivan (Data Cymru)

Randall, H., Richards, S., Owens, J. and Sullivan, S; (2023) *Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif GSR 23/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-ymgeiswyr-llywodraeth-leol-2022

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Nerys Owens

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
3. Methodoleg .......... 4
4. Profiad blaenorol fel Cynghorydd Sir .......... 9
5. Profiad blaenorol fel Cynghorydd Cymuned .......... 11
6. Ymlyniad wrth blaid .......... 12
7. Rhyw a rhywedd .......... 13
8. Rhyw ac ymlyniad wrth blaid .......... 14
9. Oedran .......... 15
10. Ethnigrwydd .......... 18
11. Crefydd .......... 19
12. Cyfeiriadedd rhywiol .......... 21
13. Addysg a cymwysterau .......... 22
14. Statws cyflogaeth .......... 22
15. Cyfrifoldebau gofalu .......... 25
16. Cymorth ddi-dâl .......... 28
17. Anabledd .......... 28
18. Yr Iaith Gymraeg .......... 32
19. Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru .......... 34
20. Argymhellion .......... 36

Atodiad – Copi o Arolwg Ymgeiswyr a Chynghorydd 2022 .......... 37

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Data Cymru, arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol ar gyfer etholiadau Mai 2022. Hwn oedd y trydydd arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol. Cynhaliwyd y cyntaf yn dilyn etholiadau 2012 a'r ail ar ôl etholiadau Mai 2017.

1.2 Fel rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg safonedig o Gynghorwyr ac ymgeiswyr am etholiad i swydd Cynghorydd yn ei hardaloedd. Dylai'r arolwg gynnwys Cynghorwyr ac ymgeiswyr Sir a Thref a Chymuned fel ei gilydd a gofyn set benodedig o gwestiynau a oedd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gwestiynau am ryw a hunaniaeth rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; iaith; ethnigrwydd; oedran; anabledd; crefydd neu gred; iechyd; addysg a chymwysterau; cyflogaeth; a gwaith fel Cynghorydd. Data Cymru a gynhaliodd arolwg 2022 ar ran yr awdurdodau lleol.

1.3 Nod pennaf yr arolwg yw darparu gwybodaeth amserol am broffil demograffaidd Cynghorwyr ac ymgeiswyr awdurdod lleol. Y bwriad yw ailadrodd yr arolwg yn ystod pob etholiad arferol er mwyn olrhain newidiadau yn nodweddion Cynghorwyr ac ymgeiswyr dros amser.

1.4 Cafodd holiadur 2017 ei ystyried gan grŵp rhanddeiliaid, a gynigiodd newidiadau a gafodd eu hymgorffori wedyn yn arolwg 2022. Roedd y grŵp rhanddeiliaid hwn yn cynnwys swyddogion monitro llywodraeth leol, rheolwyr gwasanaethau etholiadol, Cynghorwyr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Un Llais Cymru, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a grwpiau cydraddoldeb. Roedd yn ofynnol pennu holiadur 2022 mewn rheoliadau. Mae unrhyw newidiadau i'r holiadur yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad.

1.5 O ran sut mae'r data wedi'i ddadansoddi a'i gyflwyno yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig nodi nad yw canfyddiadau'r arolwg wedi cael eu pwysoli ac nad yw cyfyngau hyder wedi'u cyfrifo. Ystyr hyn yn ymarferol yw 1) bod ffiniau cyfeiliornad anhysbys mewn perthynas â'r rhiifau sy'n deillio o'r arolwg; a 2) y dylid bod yn ofalus wrth gymahru canlyniadau arolygon 2012,

2017 a 2022, am nad yw’n bosibl cadarnhau dilysrwydd ystadegol gwahaniaethau rhwng y tri arolwg.

1.6 Cynhaliodd Data Cymru ddadansoddiad manwl o ddata arolwg 2022 ac mae’r adroddiad hwn yn crynhoi nodweddion demograffaidd Cynghorwyr etholedig ac ymgeiswyr na chawsant eu hethol, gan ganolbwyntio’n arbennig ar nodweddion sy’n arwydd o amrywiaeth. Y bwriad yw i’r wybodaeth sy’n cael ei darparu gefnogi Llywodraeth Cymru a’r pleidiau gwleidyddol wrth ddatblygu polisïau i gynyddu amrywiaeth y sawl sy’n sefyll fel Cynghorwyr Sir a Chymuned.

1.7 Mae’r term ‘Sir’ yn cael ei ddefnyddio am ymgeiswyr / Cynghorwyr Sir a Bwrdeistref Sirol ac mae’r term ‘Cymuned’ yn cael ei ddefnyddio am ymgeiswyr / Cynghorwyr Cymuned a Thref trwy gydol yr adroddiad hwn.

## 2. Methodoleg

2.1 Cafodd yr arolwg ei gynnal cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022. Trefnwyd bod yr holiadur ar gael i ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Sir a Chymuned fel rhan o'u pecynnau enwebu. Cafodd yr arolwg ei gynnal ar-lein gyda chopïau papur ar gael drwy wneud cais.

2.2 Cafodd arolwg 2012 ei gynnal ar ôl yr etholiad. Roedd gan y dull hwn y potensial am duedd dim ymateb am fod yr ymgeiswyr hynny na chawsant eu hethol yn ymateb ar gyfradd is na'r ymgeiswyr a gafodd eu hethol.

2.3 Yn yr un modd ag arolwg 2017, cafodd arolwg 2022 ei ddylunio i leihau tuedd dim ymateb gan ymgeiswyr na chawsant eu hethol drwy fod ar gael cyn yr etholiad. Cafodd rhai dyfeisiau adnabod unigryw eu casglu fel rhan o'r holiadur er mwyn caniatáu eu cysylltu â chofnodion ymgeiswyr, gan helpu i ddeall a gafodd yr ymgeisydd ei ethol yn dilyn yr etholiad. Cafodd 14 y cant o ymatebion eu derbyn cyn yr etholiad, a chafodd 83 y cant eu derbyn ar ôl yr etholiad.

2.4 Dylid trin cymhariaeth rhwng canlyniadau 2022, 2017 a 2012 gyda gofal.

2.5 Gall ymgeiswyr sefyll mewn etholiadau Sir neu Gymuned, neu'r ddau. Mae crynodeb o nifer cyffredinol yr ymgeiswyr yn cael ei ddangos yn

## 2.6 Tabl

**Tabl 1: Ymgeiswyr yn ôl math o etholiad[1]**

| | Nifer ymgeiswyr | Canran ymgeiswyr |
|---|---|---|
| Holl ymgeiswyr | 8,794 | 100 |
| Sir yn unig | 2,155 | 25 |
| Cymuned yn unig | 5,503 | 63 |
| Sir a Chymuned fel ei gilydd[1] | 1,136 | 13 |
| Cyfanswm Sir | 3,291 | 37 |
| Cyfanswm Cymuned | 6,639 | 75 |

2.7 Mae'n bosibl hefyd i ymgeiswyr sefyll am fwy nag un sedd Cymuned. O'r 6,639 o ymgeiswyr mewn seddi Cymuned, safodd 82 (1.2 y cant) o ymgeiswyr mewn mwy nag un sedd Cymuned. Pan safodd ymgeiswyr am fwy nag un sedd, maent wedi cael eu cyfrif unwaith yn unig. Mae ymgeiswyr a safodd mewn mwy nag un sedd wedi cael eu categoreiddio fel etholedig os cawsant eu hethol i o leiaf un o'r seddi hyn. Seddi diymgeisydd yw'r rhai na chawsant ddigon o ymgeiswyr i wneud etholiad yn ofynnol. Mae ymgeiswyr mewn seddi diymgeisydd cael eu categoreiddio fel etholedig at ddiben y dadansoddiad hwn.

2.8 Mae ymgeiswyr a gafodd eu hethol yn cael eu galw'n Gynghorwyr yn yr adroddiad hwn. Cyfeirir at ymgeiswyr na chawsant eu hethol i'r un sedd roeddent yn sefyll amdani fel ymgeiswyr heb eu hethol.

2.9 Ymatebodd nifer o ymgeiswyr i'r arolwg mwy nag unwaith, o ganlyniad i dderbyn mwy nag un pecyn enwebu neu nodiadau atgoffa a anfonwyd gan Data Cymru neu'r awdurdod lleol. Dim ond un ymateb yr ymgeisydd sydd wedi cael ei gynnwys. Lle roedd ymatebion deublyg yn ymatebion llawn, dewiswyd yr ymateb diweddaraf i'w gynnwys yn y dadansoddiad. Lle roedd yn glir bod ymgeisydd wedi dechrau ond heb orffen yr arolwg, ac wedi ei

[1] Ar gyfer Powys ac Abertawe, mae nifer yr ymgeiswyr yn ôl math o etholiad wedi cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio data a gyhoeddwyd ar eu gwefan. Ond, wrth ddefnyddio'r dull hwn, nid oedd modd i ni nodi nifer yr ymgeiswyr a safodd yn etholiadau Sir ac etholiadau Cymuned. Felly, nid oes unrhyw ffigurau Powys nac Abertawe yn rhes 'Sir a Chymuned fel ei gilydd' ac mae'n bosibl bod y ffigurau yn rhesi 'Sir yn unig' a 'Cymuned yn unig' wedi goramcangyfrif rhywfaint.

gwblhau ar ddyddiad diweddarach, cafodd yr ymateb llawn i'r arolwg ei ddefnyddio.

2.10 Yn ogystal, fel rhan o lanhau'r data, cafodd ymatebion rhannol a gynhwysai lai na rhyw 25 y cant o'r arolwg eu gwrthod. Cynhaliwyd ymarfer helaeth ei gynnal i baru ymgeiswyr ag ymatebwyr hefyd, gan ddefnyddio data a gyflenwyd gan awdurdodau lleol gydag ymatebion i'r arolwg, i sicrhau bod yr arolwg wedi cael ei gwblhau gan y rhai y bwriadwyd ar eu cyfer.

2.11 At ei gilydd, safodd 8,794 o ymgeiswyr am etholiad. Safodd rhai ymgeiswyr mewn mwy nag un etholiad. Roedd 2,155 o Ymgeiswyr Sir unigryw a 5,503 o Ymgeiswyr Cymuned unigryw. Safodd 1,136 o ymgeiswyr am etholiadau Sir a Chymuned fel ei gilydd. Denodd yr arolwg 1,077 o ymatebion dilys a rhoddir crynodeb o ymatebion yr arolwg a chyfraddau ymateb yn ôl math o etholiad yn Tabl 2.

**Tabl 2: Cyfraddau ymateb yn ôl math o etholiad**

| | Nifer ymgeiswyr | Cyfran a etholwyd (%) | Nifer ymatebion i'r arolwg | Cyfradd ymateb yr arolwg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Pawb | 8,794 | | 1,077 | 12 |
| Etholwyd | 6,265 | 71 | 609 | 10 |
| Heb eu hethol | 2,529 | 29 | 352 | 14 |
| Anhysbys | - | - | 116 | - |
| Sir | 3,291 | | 613 | 19 |
| Etholwyd | 1,248 | 38 | 309 | 25 |
| Heb eu hethol | 2,043 | 62 | 261 | 13 |
| Anhysbys | - | - | 43 | - |
| Cymuned | 6,639 | | 670 | 10 |
| Etholwyd | 5,428 | 82 | 444 | 8 |
| Heb eu hethol | 1,211 | 18 | 138 | 11 |
| Anhysbys | - | - | 88 | - |

2.12 Y gyfradd ymateb i'r arolwg yn 2017 oedd 18 y cant (1,701 o ymatebion) o'i chymharu â 12 y cant (1,077 o ymatebion) yn 2022. Yn gyntaf, rheswm posibl dros y lleihad hwn yn y gyfradd ymateb yw bod arolwg eleni yn "ddigidol yn gyntaf", ond nid felly cofrestriad ymgeiswyr yn y mwyafrif o

awdurdodau lleol, ac felly ni roddodd pob ymgeisydd gyfeiriad e-bost wrth gofrestru. Yn ail, yn dilyn pandemig COVID-19, efallai bod ymgeiswyr yn dioddef “syrffed ar arolygon” sy’n gysylltiedig â’r codiad yn nifer yr arolygon sy’n edrych ar faterion cydraddoldeb a llesiant. Yn drydydd, oherwydd gofynion Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data’r DU (GDPR) (nad oeddent ar waith eto yn 2017) ni fu’n bosibl mynd ar drywydd ac atgoffa ymgeiswyr penodol a oedd heb ymateb; yn hytrach, dim ond nodiadau atgoffa cyffredinol i bob ymgeisydd a allai gael eu hanfon.

2.13 Roedd cyfraddau ymateb yr holl ymgeiswyr yn amrywio o 40 y cant ym Merthyr Tudful i 1 y cant ar Ynys Môn. Rhoddir nifer yr ymgeiswyr a’r ymatebion i’r arolwg a gafwyd ym mhob awdurdod lleol yn Tabl 3.

**Tabl 3: Cyfraddau ymateb yn ôl awdurdod lleol**

| | Nifer ymgeiswyr | Nifer ymatebion i'r arolwg | Cyfradd ymateb i'r arolwg (%) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 357 | 3 | 1 |
| Gwynedd | 623 | 26 | 4 |
| Conwy | 412 | 83 | 20 |
| Sir Ddinbych | 372 | 36 | 10 |
| Sir y Fflint | 417 | 110 | 26 |
| Wrecsam | 410 | 93 | 23 |
| Powys | 1,024 | 36 | 4 |
| Ceredigion | 491 | 39 | 8 |
| Sir Benfro | 662 | 91 | 14 |
| Sir Gâr | 785 | 19 | 2 |
| Abertawe | 454 | 35 | 8 |
| Castell-nedd Port Talbot | 324 | 85 | 26 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 270 | 43 | 16 |
| Bro Morgannwg | 353 | 69 | 20 |
| Caerdydd | 392 | 80 | 20 |
| Rhondda Cynon Taf | 303 | 46 | 15 |
| Merthyr Tudful | 75 | 30 | 40 |
| Caerffili | 272 | 44 | 16 |
| Blaenau Gwent | 102 | 32 | 31 |
| Torfaen | 140 | 38 | 27 |
| Sir Fynwy | 334 | 26 | 8 |
| Casnewydd | 222 | 13 | 6 |


2.14 Dewisodd rhai ymatebwyr beidio ag ateb cwestiynau penodol. Mae'r rhain wedi'i dangos mewn tablau a graffau fel 'dim ymateb'. Drwy wneud hyn mae modd cadw'r sylfaen yn gyson ar draws y mwyafrif o siartiau.

2.15 O hyn ymlaen, ac oni nodir fel arall, mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad yn cyfeirio at ymgeiswyr a ymatebodd i'r arolwg, nid at yr holl ymgeiswyr a safodd yn yr etholiadau.

## 3. Profiad blaenorol fel Cynghorydd Sir

3.1 Cafodd geiriad y cwestiwn am brofiad blaenorol fel Cynghorydd Sir ei newid yn 2017. Roedd y geiriad ar gyfer arolwg 2022 yn cyd-fynd â geiriad arolwg 2017 ond nid yw'r rhain yn defnyddio'r un geiriad ag arolwg 2012. Gan hynny, nid yw'n bosibl cymharu canlyniadau'r tri yn uniongyrchol.

**Ffigur 1: Ydych chi wedi sefyll am etholiad i Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yn y gorffennol?**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138*

3.2 Roedd mwy nag un o bob tri (39 y cant) ymgeisydd wedi sefyll am etholiad fel Cynghorydd Sir yn y gorffennol; roedd 26 y cant wedi eu hethol o'r blaen.


3.3 O'r sawl a etholwyd yn Gynghorwyr Sir yn 2022, roedd 63 y cant wedi sefyll am etholiad fel Cynghorydd Sir mewn etholiadau blaenorol, ac roedd 50 y cant wedi eu hethol o'r blaen.

3.4 Roedd cyfanswm y blynyddoedd roedd ymgeiswyr wedi eu gwasanaethu o'r blaen fel Cynghorwyr Sir yn amrywio o lai na blwyddyn i fwy na 46 o flynyddoedd. Hyd canolrifol gwasanaeth blaenorol oedd 10 mlynedd. Roedd tua 46 y cant o'r rhai a oedd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd Sir o'r blaen wedi gwneud hynny am 10 mlynedd neu fwy. Gofynnwyd i ymgeiswyr gynnwys eu cyfnod cyfan yn y swydd ac ni holwyd am unrhyw doriadau mewn gwasanaeth.

3.5 Roedd mwy nag un o bob pump (22 y cant) o Ymgeiswyr Sir na chawsant eu hethol wedi bod yn aflwyddiannus mewn etholiad blaenorol hefyd.

## 4. Profiad blaenorol fel Cynghorydd Cymuned

**Ffigur 2: Ydych chi wedi sefyll am etholiad i Gyngor Cymuned neu Dref yn y gorffennol?**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138*

4.1 Roedd bron hanner yr ymgeiswyr wedi sefyll am etholiad i gyngor Cymuned yn y gorffennol (46 y cant); roedd 42 y cant wedi eu hethol o'r blaen.

4.2 O'r rhai a etholwyd yn Gynghorwyr Cymuned yn 2022, roedd mwy na hanner (59 y cant) wedi sefyll am etholiad i gynghorau Cymuned o'r blaen. Roedd bron pob un o'r rhain (54 y cant o Gynghorwyr) wedi eu hethol o'r blaen.

4.3 Roedd cyfanswm y blynyddoedd roedd ymgeiswyr wedi eu gwasanaethu o'r blaen fel Cynghorwyr Cymuned yn amrywio o lai na blwyddyn i fwy na 52 o flynyddoedd. Hyd canolrifol gwasanaeth blaenorol oedd naw mlynedd. Hyd canolrifol gwasanaeth blaenorol oedd 10 mlynedd. Roedd tua 47 y cant o'r rhai a oedd wedi gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned o'r blaen wedi gwneud hynny am 10 mlynedd neu fwy. Gofynnwyd i ymgeiswyr gynnwys eu cyfnod cyfan yn y swydd ac ni holwyd am unrhyw doriadau mewn gwasanaeth.

## 5. Ymlyniad wrth blaid

**Tabl 4: Pa blaid, os o gwbl, ydych chi'n / wnaethoch chi ei chynrychioli?**

| | Holl ymgeiswyr (%) | Sir - Etholwyd (%) | Sir - Heb eu hethol (%) | Cymuned - Etholwyd (%) | Cymuned - Heb eu hethol (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Annibynnol[2] | 46 | 29 | 26 | 58 | 51 |
| Plaid Lafur Cymru | 29 | 46 | 26 | 25 | 24 |
| Plaid Cymru | 11 | 12 | 16 | 12 | 6 |
| Plaid Geidwadol Cymru | 6 | 6 | 14 | 2 | 11 |
| Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | 3 | 5 | 6 | 2 | 4 |
| Y Blaid Werdd | 3 | 2 | 10 | 1 | 3 |
| Arall | 1 | 0 | 3 | 0 | 2 |

*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138*

5.1 O'r Cynghorwyr Sir etholedig a ymatebodd i'r arolwg, dwedodd 46 y cant eu bod yn cynrychioli Plaid Lafur Cymru, roedd 29 y cant yn Annibynnol, roedd 12 y cant yn cynrychioli Plaid Cymru, 6 y cant Ceidwadwyr Cymru, 5 y cant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a 2 y cant y Blaid Werdd.


5.2 Ymhlith Cynghorwyr Cymuned etholedig, safodd 58 y cant fel Annibynolwyr, 25 y cant dros Blaid Lafur Cymru, 12 y cant dros Blaid Cymru, 2 y cant dros Geidwadwyr Cymru, 2 y cant dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac 1 y cant dros y Blaid Werdd.

[2] Rhoddodd yr arolwg opsiynau ar wahân ar gyfer "Annibynnol" a "Ddim yn gysylltiedig ag unrhyw barti". Mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel rhai "Annibynnol".

## 6. Rhyw a rhywedd

6.1 Er mwyn cysoni geiriad y cwestiwn â safonau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae arolwg 2022 yn holi am 'ryw' yn hytrach na 'rhywedd'. Gan hynny, nid yw'n bosibl cymharu canlyniadau 2017 yn uniongyrchol â 2022.

**Ffigur 3: Beth yw eich rhyw?**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138*

6.2 Canfu'r arolwg, drwyddi draw, fod 40 y cant o ymgeiswyr yn fenyw a 60 y cant yn wryw.

6.3 Roedd dau o bob pum Cynghorydd Sir (40 y cant) yn fenyw a 43 y cant o Gynghorwyr Cymuned yn fenyw.


6.4 Lleiafrif bach o ymgeiswyr, llai nag 1 y cant, a ddewisodd beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

6.5 Yn arolwg 2022 gofynnwyd y cwestiwn canlynol am y tro cyntaf: 'Ydy'r rhywedd rydych yn uniaethu ag ef yr un peth â'ch rhyw cofrestredig adeg eich geni?'. Atebodd 97 y cant o'r holl ymgeiswyr 'Ydy' i'r cwestiwn, atebodd 1 y cant 'Nac ydy' a dewsiodd y 2 y cant arall beidio ag ateb. Ychydig o amrywiaeth a fu rhwng Ymgeiswyr Cymuned a Sir a rhwng ymgeiswyr a gafodd eu hethol a'r rhai na chawsant eu hethol.

## 7. Rhyw ac ymlyniad wrth blaid

7.1 Cafodd geiriad y cwestiwn ei newid yn 2022, er mwyn i'r arolwg holi bellach am 'ryw' yn hytrach na 'rhywedd'. Gan hynny, nid yw'n bosibl cymharu canlyniadau rhwng 2017 a 2022 yn uniongyrchol.

**Ffigur 4: Rhyw ac ymlyniad wrth blaid** [3]




*Seiliau: Ymgeiswyr Sir: 613; Ymgeiswyr Cymuned: 669; Holl ymgeiswyr: 1,077 (cafodd 205 o bobl eu cynnwys yn y ffigurau Cymuned a Sir)*


7.2 Canfu'r arolwg fod cyfran yr Ymgeiswyr Sir benyw yn amrywio o 45 y cant i 13 y cant rhwng pleidiau gwleidyddol.

7.3 Roedd y patrwm yn debyg am Ymgeiswyr Cymuned, gyda chyfran ychydig yn uwch o ymgeiswyr benyw yn y Blaid Werdd (44 y cant), Plaid Cymru (40 y cant) ac Arall (20 y cant). Mae cyfran yr Ymgeiswyr Cymuned benyw yn is na chyfran yr Ymgeiswyr Sir ym Mhlaid Lafur Cymru (40 y cant), Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (29 y cant), a Cheidwadwyr Cymru (21 y cant).

[3] Rhoddodd yr arolwg opsiynau ar wahân ar gyfer "Annibynnol" a "Ddim yn gysylltiedig ag unrhyw barti". Mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel rhai "Annibynnol".


## 8. Oedran

**Ffigur 5: Holl ymgeiswyr - Pa fand oedran oeddech chi ynddo ar eich pen-blwydd diwethaf?**





*Sylfaen: 1,077*

**Ffigur 6a: Ymgeiswyr Sir - Pa fand oedran oeddech chi ynddo ar eich pen-blwydd diwethaf?**




*Sylfaen: 570*

**Ffigur 6b: Ymgeiswyr Cymuned - Pa fand oedran oeddech chi ynddo ar eich pen-blwydd diwethaf?**




*Sylfaen: 582*

8.1 Canfu'r arolwg fod 50 y cant o ymgeiswyr yn 60 oed neu drosodd.

8.2 Ymhlith Cynghorwyr etholedig, roedd 46 y cant o Gynghorwyr Sir a 56 y cant o Gynghorwyr Cymuned yn 60 oed neu drosodd.

8.3 Roedd lleiafrif bach o Gynghorwyr Sir (2 y cant) a Chynghorwyr Cymuned (1 y cant) yn 18 i 29 blwydd oed. Ymhlith ymgeiswyr Sir a Chymuned na chawsant eu hethol, roedd 5 y cant yn y band oedran hwn.

8.4 Wrth edrych ar ryw ac oedran, roedd 29 y cant o'r holl Gynghorwyr Sir yn wrywod 60 oed neu drosodd, 18 y cant yn fenywod 60 oed neu drosodd, 30 y cant yn wrywod 18 i 59 blwydd oed a 23 y cant yn fenywod 18 i 59 blwydd oed.

## 9. Ethnigrwydd

**Tabl 6: Beth yw'ch grŵp ethnig?[4]**

| | Holl ymgeiswyr (%) | Sir – Etholwyd (%) | Sir - Heb eu hethol (%) | Cymuned - Etholwyd (%) | Cymuned - Heb eu hethol (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Brydeinig | 1 | 1 | 1 | 1 | - |
| Du, Du Cymreig, Du Brydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0 | 0 | - | - | - |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Gwyn | 96 | 96 | 96 | 96 | 96 |
| Grŵp ethnig arall | 1 | 1 | 0 | 1 | - |
| Dim ymateb | 2 | 1 | 2 | 1 | 3 |

*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138.*

*Mae'r rhaniad hwn o grwpiau ethnig wedi cael ei ddewis i gyd-fynd â safonau'r SYG.*

*Adroddwn ar grwpiau lefel uwch yma ond yn yr arolwg gofynnom ni am atebion yn ôl dadansoddiad manylach.*

9.1 Ar y cyfan adroddodd 96 y cant o ymgeiswyr eu bod o grŵp ethnig gwyn.

[4] Lle mae sero yn cael ei ddangos yn y tabl, mae hyn yn cynrychioli nifer o bobl uwch na sero, ond o'u talgrynnu i lawr fel canran mae'n 0%. Lle dangosir cysylltnod, mae hyn yn golygu bod nifer gwirioneddol yr ymgeiswyr yn sero.

9.2 Adroddodd 1 y cant o ymgeiswyr eu bod o grŵp ethnig Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig.

9.3 Adroddodd 1 y cant eu bod o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.

9.4 Llai nag 1 y cant a adroddodd eu bod o grwpiau ethnig Du, Du Cymreig, Du Brydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd.

9.5 Methodd 2 y cant o ymgeiswyr ag ymateb i’r cwestiwn hwn.

## 10. Crefydd

**Tabl 7: Beth yw'ch crefydd?**

| | Holl ymgeiswyr (%) | Cymuned - Heb eu hethol (%) | Cymuned - Etholwyd (%) | Sir - Heb eu hethol (%) | Sir - Etholwyd (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogion (pob enwad) | 53 | 57 | 53 | 49 | 55 |
| Dim crefydd | 40 | 36 | 39 | 42 | 39 |
| Arall | 3 | 4 | 2 | 5 | 3 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3 | 1 | 4 | 3 | 3 |
| Dim ymateb | 1 | 4 | 1 | 0 | 1 |

*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138*

10.1 Roedd tua hanner yr ymgeiswyr (54 y cant) yn Gristnogion (sy'n cynnwys pob enwad), tra nad oedd crefydd gan 40 y cant, ac atebodd 3 y cant "arall" (gan gynnwys Bwdhydd, Hindw, Iddew, Mwslim, Sîc ac 'unrhyw grefydd arall').

10.2 Ychydig o amrywiaeth a welwyd ar draws atebion Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned ac ymgeiswyr na chawsant eu hethol.

## 11. Cyfeiriadedd rhywiol

**Tabl 8: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol chi orau?**

| | Holl ymgeiswyr (%) | Cymuned - Heb eu hethol (%) | Cymuned - Etholwyd (%) | Sir - Heb eu hethol (%) | Sir - Etholwyd (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol neu strêt | 88 | 88 | 88 | 88 | 89 |
| Hoyw / lesbiaidd / Deurywiol | 6 | 6 | 5 | 8 | 6 |
| Unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall | 1 | 2 | 0 | 1 | - |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4 | 1 | 6 | 2 | 3 |
| Dim ymateb | 2 | 3 | 2 | 0 | 1 |

*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Sir – Etholwyd: 309; Sir – Heb eu hethol: 261; Cymuned – Etholwyd: 444; Cymuned – Heb eu hethol: 138*

11.1 Canfu'r arolwg fod 88 y cant o ymgeiswyr yn ystyried eu hun yn heterorywiol neu strêt, 6 y cant fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol ac 1 y cant fel unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall.


11.2 Roedd canran yr ymgeiswyr a oedd yn ystyried eu hun yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn amrywio o 5 y cant o Gynghorwyr Cymuned i 8 y cant o ymgeiswyr Sir na chawsant eu hethol.

11.3 Mae tan-ddatgan yn gallu effeithio ar gwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol mewn arolygon. Mae'n werth nodi i 6 y cant o ymatebwyr yr arolwg beidio â rhannu eu cyfeiriadedd rhywiol; dewisodd 4 y cant o'r rheiny'r opsiwn ateb 'gwell gennyf beidio â dweud' a methodd 2 y cant ag ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae hyn yn gyfran uwch na'r rhai a fethodd â datgelu eu rhyw (llai nag 1 y cant) neu eu hunaniaeth rywiol (2 y cant).

## 12. Addysg a cymwysterau

12.1 Er i gwestiwn tebyg gael ei ofyn yn arolwg 2017, mae geiriad y cwestiwn wedi cael ei newid ar gyfer 2022. Felly, nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol gan fod mwy o ddewisiadau cymwysterau wedi cael eu hychwanegu.

**Ffigur 8: Cymwysterau uchaf a enillwyd gan ymgeiswyr**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077. Sir – Etholwyd: 309. Sir – Heb eu hethol: 261. Cymuned – Etholwyd: 444. Cymuned – Heb eu hethol: 138*

12.2 Roedd bron dau o bob tri ymgeisydd (63 y cant) yn dal cymhwyster uchaf a oedd yn gyfwerth â Lefel 4 neu uwch (e.e. gradd, cymhwyster olraddedig neu gymhwyster proffesiynol). Nid oedd unrhyw gymwysterau gan 5 y cant.

12.3 Mae "unrhyw gymwysterau eraill" yn cynnwys cymwysterau proffesiynol neu gymhwyster arall lle mae'r lefel yn anhysbys.

12.4 Roedd y canlyniadau hyn yn debyg iawn ymhlith Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned ac ymgeiswyr na chawsant eu hethol.

## 13. Statws cyflogaeth

13.1 Er i gwestiwn tebyg gael ei ofyn yn arolwg 2017, newidiodd y cwestiwn ar gyfer 2022 ac nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol gan fod statysau cyflogaeth ychwanegol wedi cael eu cynnwys fel opsiynau ateb.

**Tabl 9: Beth yw'ch statws presennol o ran cyflogaeth?**

| | Holl ymgeiswyr (%) | Sir - Etholwyd (%) | Sir - Heb eu hethol (%) | Cymuned - Etholwyd (%) | Cymuned - Heb eu hethol (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mewn cyflogaeth amser llawn | 30 | 31 | 33 | 30 | 31 |
| Mewn cyflogaeth ran-amser | 13 | 16 | 11 | 10 | 12 |
| Hunan-gyflogedig | 14 | 14 | 16 | 13 | 18 |
| Myfyriwr (amser llawn neu ran-amser) | 2 | 1 | 4 | 1 | 4 |
| Wedi ymddeol / lled-ymddeol | 38 | 32 | 34 | 43 | 36 |
| Gofalwr / Edrych ar ôl y cartref | 4 | 5 | 4 | 4 | 4 |
| Sâl hirdymor neu'n anabl | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 |
| Arall: cynllun hyfforddiant y Llywodraeth, ar absenoldeb rhiant, gweithiwr di-dâl mewn busnes teuluol | 1 | 6 | 1 | 3 | 2 |
| Di-waith | 2 | 4 | 4 | 1 | 2 |

*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Cymuned – Heb eu hethol: 138; Cymuned – Etholwyd: 444; Sir – Heb eu hethol: 261; Sir – Etholwyd: 309. Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un opsiwn, felly mae'n bosibl bod canrannau yn symio i fwy na 100*


13.2 Roedd mwy nag un o bob tri (43 y cant) ymgeisydd yn cael eu cyflogi naill ai'n amser llawn (30 y cant) neu'n rhan-amser (13 y cant) ac roedd 14 y cant arall yn hunan-gyflogedig. Roedd 38 y cant o ymgeiswyr wedi

ymddeol, ac roedd 2 y cant yn ddi-waith. Roedd y 10 y cant sy'n weddill yn fyfyrwyr amser llawn neu ran-amser, ar absenoldeb mamolaeth, yn edrych ar ôl y teulu neu'r cartref, yn sâl yn hirdymor neu'n anabl, ar gynllun hyfforddiant y llywodraeth, yn weithwyr di-dâl mewn busnes teuluol, neu wedi dethol "arall".

13.3 Ymhlith Cynghorwyr Sir, roedd 47 y cant yn gyflogeion, roedd 14 y cant yn hunan-gyflogedig, ac roedd 32 y cant wedi ymddeol.

13.4 Ymhlith Cynghorwyr Cymuned, roedd 40 y cant yn gyflogeion, roedd 13 y cant yn hunan-gyflogedig, ac roedd 43 y cant wedi ymddeol.

**Ffigur 9: Pa gategori sy'n disgrifio'ch sector cyflogaeth presennol neu ddiweddaraf?**





*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Cymuned – Heb eu hethol: 138; Cymuned – Etholwyd: 444; Sir – Heb eu hethol: 261; Sir – Etholwyd: 309*

13.5 Nododd y mwyafrif o ymgeiswyr (46 y cant) fod eu cyflogaeth bresennol, neu ddiweddaraf, yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth leol, llywodraeth ganolog, GIG, addysg a sector cyhoeddus arall). Roedd 43 y cant yn gweithio yn y sector preifat, roedd 8 y cant yn gweithio yn y sector gwirfoddol ac 1 y cant mewn sectorau 'eraill' (gan gynnwys amaethyddiaeth). Ni ddwedodd yr un ymgeisydd ei fod yn gweithio yn y lluoedd arfog.

13.6 Ymhlith Cynghorwyr Sir etholedig, roedd 50 y cant yn gweithio yn y sector cyhoeddus o’u cymharu â 43 y cant o ymgeiswyr Sir na chawsant eu hethol.

## 14. Cyfrifoldebau gofalu

**Ffigur 10: Oes gennych chi unrhyw gyfrifoldebau gofalu?**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Cymuned – Heb eu hethol: 138; Cymuned – Etholwyd: 444; Sir – Heb eu hethol: 261; Sir – Etholwyd: 309. Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un opsiwn, fellymae'n bosibl bod canrannau yn symio i fwy na 100*

14.1 Canfu'r arolwg fod gan 36 y cant o'r holl ymgeiswyr rai cyfrifoldebau gofalu. Roedd gan 17 y cant o ymgeiswyr gyfrifoldebau fel rhiant.

14.2 Ymhlith Cynghorwyr etholedig, roedd gan 15 y cant o Gynghorwyr Sir ac 16 y cant o Gynghorwyr Cymuned gyfrifoldebau fel rhiant. Roedd gan 17 y cant o ymgeiswyr Cymuned na chawsant eu hethol a 18 y cant o ymgeiswyr Sir na chawsant eu hethol gyfrifoldebau fel rhiant.

14.3 Ymhlith Cynghorwyr Sir, roedd gan 13 y cant o wrywod a 18 y cant o fenywod gyfrifoldebau fel rhiant, ac roedd gan 27 y cant o wrywod a 49 y cant o fenywod gyfrifoldebau gofalu.

14.4 Ymhlith Cynghorwyr Cymuned, roedd gan 14 y cant o wrywod a 18 y cant o fenywod gyfrifoldebau fel rhiant, ac roedd gan 29 y cant o wrywod a 43 y cant o fenywod gyfrifoldebau gofalu.

## 15. Cymorth ddi-dâl

**Tabl 10: Pa rai o'r clybiau neu sefydliadau hyn, os oes rhai, ydych chi'n rhoi eich amser iddynt yn ddi-dâl ar hyn o bryd?**

| | Holl ymgeiswyr (%) | Cynghorwyr Sir (%) | Cynghorwyr Cymuned (%) |
|---|---|---|---|
| Sefydliad elusennol | 41 | 45 | 45 |
| Grŵp crefyddol | 11 | 10 | 11 |
| Amgueddfa / safle treftadaeth | 5 | 5 | 5 |
| Grwpiau cymuned | 50 | 57 | 57 |
| Grŵp amgylcheddol | 18 | 23 | 16 |
| Grwpiau celfyddydau | 9 | 11 | 9 |
| Grŵp tenantiaid / preswylwyr neu warchod cymdogaeth | 9 | 12 | 8 |
| Grŵp ysgol neu bobl ifanc | 24 | 34 | 24 |
| Grŵp / sefydliad pensiynwyr | 6 | 7 | 7 |
| Clwb chwaraeon | 16 | 20 | 16 |
| Clwb neu sefydliad arall | 19 | 18 | 21 |

*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077; Cynghorwyr Sir: 309; Cynghorwyr Cymuned: 444*


15.1 Roedd ymatebwyr yn gallu dewis atebion lluosog, felly mae ffigurau'r ganran yn symio i fwy na 100 am bob grŵp.

15.2 Y gweithgaredd di-dâl amlaf a adroddwyd oedd rhoi help i grŵp Cymunedol, gyda mwy na hanner y Cynghorwyr Sir (57 y cant) a Chynghorwyr Cymuned (hefyd 57 y cant) yn gwneud hyn. Mae cyfran fawr (45 y cant) o Gynghorwyr yn rhoi cymorth di-dâl i gyrff elusennol, tra bod 34 y cant o Gynghorwyr Sir a 24 y cant o Gynghorwyr Cymuned yn rhoi eu hamser yn ddi-dâl i ysgolion neu grwpiau pobl ifanc. Y gweithgaredd lleiaf aml i Gynghorwyr Cymuned a Sir oedd gweithio mewn amgueddfa / safle treftadaeth, gyda 5 y cant ohonynt yn rhoi cymorth di-dâl i'r mathau hyn o sefydliadau.

## 16. Anabledd

16.1 Er i gwestiwn tebyg gael ei ofyn yn arolwg 2017, cafodd geiriad y cwestiwn ei newid ar gyfer arolwg 2022 ac nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol.

**Ffigur 11: Ydych chi'n ystyried eich hunan yn berson anabl[5]?**





*Sylfaen: 1,077*

16.2 Adroddodd mwyafrif mawr o'r holl ymgeiswyr (82 y cant) nad oeddent yn ystyried eu hunain yn berson anabl. Ystyriodd 14 y cant o'r holl ymgeiswyr nad ydynt yn berson anabl, tra roedd yn well gan 3 y cant beidio â dweud.

16.3 Ymhlith Cynghorwyr Sir, ystyriodd 13 y cant eu hunain yn berson anabl. Ymhlith Cynghorwyr Cymuned ystyriodd 15 y cant eu hunain yn berson anabl.

[5] Nid yw geiriad y cwestiwn yn cydymffurfio â'r model cymdeithasol o anabledd. Fodd bynnag, penderfynwyd cadw'r geiriad hwn yng ngoleuni ymgynghoriad technegol a'r angen i allu cymharu dros amser.

**Ffigur 12: Oes gennych chi unrhyw rai o'r namau neu gyflyrau iechyd canlynol?[6]**




*Sylfaen: 1,077*

16.4 Yn gyfan gwbl, dwedodd 35 y cant (379) o ymgeiswyr fod ganddynt o leiaf un cyflwr iechyd neu nam. O'r rhain, rhestrodd 379 o ymgeiswyr, 26 y cant (97) gyflyrau neu namau mewn mwy nag un categori.

16.5 Mae gan 17 y cant o'r holl ymgeiswyr gyflwr iechyd hirdymor.

[6] Roedd ymatebwyr yn gallu dewis atebion lluosog, felly nid yw'r categorïau yn y siart yn annibynnol ar ei gilydd. Mae gan 9 y cant o ymgeiswyr gyflyrau neu namau mewn mwy nag un categori. Ni wnaeth 63 y cant o ymgeiswyr restru'r un cyflwr na nam, ac ni roddodd 2 y cant ymateb (heb eu dangos) Yr enwadur a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo canrannau yn Ffigur 12 yw'r holl ymgeiswyr.

**Tabl 11: Cyflyrau iechyd a namau**


| | Ymgeiswyr sy'n ystyried eu hun yn berson anabl (%) | Ymgeiswyr nad ydynt yn ystyried eu hun yn berson anabl, neu y mae'n well ganddynt beidio â dweud (%) | Cyfanswm (%) |
|---|---|---|---|
| Nam corfforol | 7 | 3 | 10 |
| Nam synhwyraidd | 2 | 4 | 6 |
| Anhawster neu nam dysgu | 1 | 1 | 2 |
| Cyflwr iechyd meddwl | 2 | 2 | 4 |
| Cyflwr iechyd hirdymor | 7 | 9 | 17 |
| Yn niwrowahanol | 2 | 1 | 3 |
| Cyflwr arall sydd heb ei gynnwys yn yr uchod | 1 | 4 | 5 |
| Ddim yn rhestru'r un cyflwr neu nam | 0 | 62 | 63 |

*Sylfaen: 1,077. Rhestrodd 97 (9%) o ymgeiswyr gyflyrau neu namau mewn mwy nag un categori*

16.6 Roedd 40 y cant o ymgeiswyr a adroddodd fod ganddynt gyflwr iechyd neu nam yn ystyried eu hunain yn berson anabl hefyd.

## 17. Yr Iaith Gymraeg

**Ffigur 13: Ym mha iaith ydy'n well gennych gyfathrebu'n broffesiynol?**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077. Cynghorwyr Sir: 309. Sir – Heb eu hethol: 261. Cynghorwyr Cymuned: 444. Cymuned – Heb eu hethol: 138. Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un opsiwn, felly mae'n bosibl bod canrannau yn symio i fwy na 100*

17.1 Nododd cyfran fawr (91 y cant) o ymgeiswyr mai Saesneg oedd eu dewis iaith, a dwedodd 9 y cant mai Cymraeg oedd eu dewis iaith.


17.2 Nododd nifer fach o ymgeiswyr (0.5 y cant o ymatebwyr) fod yn well ganddynt gyfathrebu'n broffesiynol mewn iaith arall (roedd Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg ymhlith yr atebion a roddwyd).

17.3 Ymhlith Cynghorwyr Sir, dwedodd 9 y cant mai Cymraeg oedd eu dewis iaith, o'u cymharu â 10 y cant o Gynghorwyr Cymuned.

17.4 Mae'n bosibl bod patrwm daearyddol ledled Cymru wedi effeithio ar y cyfrannau hyn.

17.5 Cafodd fersiwn Gymraeg yr arolwg ei chwblhau gan 7 y cant o ymgeiswyr.

**Ffigur 14: Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**




*Sylfeini: Holl ymgeiswyr: 1,077. Cynghorwyr Sir: 309. Sir – Heb eu hethol: 261. Cynghorwyr Cymuned: 444. Cymuned – Heb eu hethol: 138. Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un opsiwn, felly mae'n bosibl bod canrannau yn symio i fwy na 100*


17.6 Ymhlith yr holl ymgeiswyr, dwedodd 28 y cant eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, gallai 22 y cant siarad Cymraeg, gallai 23 y cant ddarllen Cymraeg, a gallai 18 y cant ysgrifennu Cymraeg.

17.7 Dwedodd cyfran uwch o Gynghorwyr Sir eu bod yn gallu siarad Cymraeg na Chynghorwyr Cymuned, ar 28 y cant o'i chymharu ag 20 y cant.

## 18. Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru


18.1 Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ofyn yn arolygon 2017 na 2012 felly nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol.

**Ffigur 15 - Ydych chi'n ymwybodol o Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru?**





*Sylfaen: 1,077*

**Ffigur 16 - Ydych chi'n ymwybodol o Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru? (Dim ond ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn berson anabl)**




*Sylfaen: 153*

**Ffigur 17 - Ydych chi'n ymwybodol o Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru? (Dim ond ymgeiswyr sydd â chyflwr iechyd neu nam)**




*Sylfaen: 379*

18.2 Nid oedd cyfran fawr o'r holl ymgeiswyr (81 y cant) yn ymwybodol o'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. Dim ond 1 y cant o'r holl ymgeiswyr a oedd erioed wedi derbyn arian o'r gronfa.

18.3 Mae cyfran yr ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn bobl anabl ac sy'n ymwybodol o'r gronfa ychydig yn uwch (23 y cant) o'i chymharu â'r gyfran ymhlith yr holl ymgeiswyr (17 y cant). Mae 5 y cant o ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn bobl anabl wedi derbyn cymorth o'r gronfa o'r blaen.

18.4 Ymhlith ymgeiswyr sydd â chyflwr iechyd neu nam, y gyfran sy'n ymwybodol o'r gronfa yw 19 y cant, ac mae 2 y cant o'r ymgeiswyr hyn wedi derbyn cymorth o'r gronfa o'r blaen.

18.5 Ychydig o amrywiaeth sydd rhwng Cynghorwyr Cymuned a Sir, sy'n dangos nad oedd y mwyafrif o ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gronfa ac ychydig iawn ohonynt sydd wedi'i derbyn.

## 19. Argymhellion

19.1 Mae arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol yn ffordd allweddol o gael gwybodaeth am amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr. Roedd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2022 yn cynnwys defnyddio gwybodaeth enwebu ymgeiswyr fel y ffrâm samplu. Mae’r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau gwybodaeth am y boblogaeth ymgeiswyr ar gyfer etholiad 2022.

19.2 Gallai ffurflenni enwebu ymgeiswyr gael eu hestyn i gefnogi dealltwriaeth well o amrywiaeth ymgeiswyr. Er enghraifft, mae meysydd ar gyfer dyddiad geni a phlaid wleidyddol yn cael eu cynnwys yn barod ar ffurflenni enwebu. Byddai cynnwys cwestiynau am nodweddion eraill, fel rhyw, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, a chyfeiriadedd rhywiol, yn cynnig gwybodaeth werthfawr am y boblogaeth ymgeiswyr.

19.3 Gellid ystyried dulliau ychwanegol o hybu cyfradd ymateb yr arolwg. Petai modd i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth gyswllt ddigidol am bob ymgeisydd (fel cyfeiriad e-bost) byddai modd gwella’r gyfradd ymateb i’r arolwg yn y dyfodol. Byddai’n bosibl cyflawni hyn trwy ddefnyddio cytundeb rhannu data sy’n cydymffurfio â GDPR rhwng awdurdodau lleol a’r corff ymchwil. Byddai hyn yn caniatáu i’r corff ymchwil anfon arolygon yn uniongyrchol at ymgeiswyr drwy e-bost, ac i reoli unrhyw weinyddiaeth barhaus yr arolwg ac ôl-gamau pwrpasol yn uniongyrhcol gydag ymgeiswyr. Byddai hyn yn arbed amser i reolwyr gwasanaethau etholiadol ac yn caniatáu i ymholiadau oddi wrth ymgeiswyr ynghylch yr arolwg gael eu hateb yn uniongyrchol gan y corff ymchwil sy’n gweinyddu’r arolwg.

## Atodiad – Copi o Arolwg Ymgeiswyr a Chynghorydd 2022

### Rhan 1: Gwybodaeth weinyddol

*Darparwch yr un manylion isod â'r rheini a roddwyd ar eich ffurflen enwebu neu ffurflenni enwebu.*

1. Nodwch **3 nod olaf cod post eich cartref**.
   *Er enghraifft, ar gyfer '**CF10 4LG**' nodwch **4LG**.*

   _ _ _

2. Nodwch **3 nod olaf eich cyfenw**.
   *Er enghraifft, ar gyfer '**MURPHY'** nodwch **PHY**.*

   _ _ _

3. Nodwch **ddiwrnod** eich **dyddiad geni**.
   *Er enghraifft, ar gyfer '**06/12/1992**' nodwch **06**.*

   _ _ _

## Rhan 2: Gwybodaeth am yr ymgeisydd (i’w defnyddio wrth gynnal yr arolwg cyn yr etholiad).

4. Ym mha etholiad ydych chi’n sefyll?

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol
- ☐ Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref
- ☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref hefyd

5. Pa blaid, os unrhyw un, ydych chi’n ei chynrychioli?

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Annibynnol
- ☐ Plaid Cymru
- ☐ Plaid Geidwadol Cymru
- ☐ Plaid Lafur Cymru
- ☐ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- ☐ Arall (nodwch isod)

| |
|---|
| |

6. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor **Sir neu** Gyngor **Bwrdeistref Sirol** yn y gorffennol?

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Naddo (ewch i Gwestiwn 7)
- ☐ Do, a chefais fy ethol (ewch i Gwestiwn 6A)
- ☐ Do, ond ni chefais fy ethol (ewch i Gwestiwn 7)

6A. Faint yw cyfanswm nifer y **blynyddoedd** y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd **Sir neu fel** Cynghorydd **Bwrdeistref Sirol**?

*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Sir neu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol.*

| |
|---|
| |

7. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i **Gyngor Cymuned** neu i **Gyngor Tref** yn y gorffennol?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Naddo (ewch i Ran 4)
- ☐ Do, a chefais fy ethol (ewch i Gwestiwn 7A)
- ☐ Do, ond ni chefais fy ethol (ewch i Ran 4)

7A. Faint yw cyfanswm nifer y **blynyddoedd** y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd **Cymuned neu fel** Cynghorydd **Tref**?
*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned neu fel Cynghorydd Tref.*

| |
|---|
| |

## Rhan 3: Gwybodaeth am yr ymgeisydd (i'w defnyddio wrth gynnal yr arolwg ar ôl yr etholiad)

4. Ym mha etholiad wnaethoch chi sefyll?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol (ewch i Gwestiwn 4A)
- ☐ Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref (ewch i Gwestiwn 4B)
- ☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref hefyd (ewch i Gwestiwn 4C)

4A. Rydych wedi dweud eich bod wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor **Sir neu i** Gyngor **Bwrdeistref Sirol.**

Gawsoch chi eich ethol?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Do (ewch i Gwestiwn 5)
- ☐ Naddo (ewch i Gwestiwn 5)

4B. Rydych wedi dweud eich bod wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor **Cymuned neu** Gyngor **Tref.**

Gawsoch chi eich ethol?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Do (Ewch i Gwestiwn 5)
- ☐ Naddo (Ewch i Gwestiwn 5)

4C. Rydych wedi dweud eich bod wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor **Sir neu** Gyngor **Bwrdeistref Sirol** a Chyngor **Cymuned neu** Gyngor **Tref hefyd**.

Gawsoch chi eich ethol?
*Ticiwch un blwch.*

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol | ☐ | ☐ |
| Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref | ☐ | ☐ |

5. Pa blaid, os unrhyw un, oeddech chi'n ei chynrychioli?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Annibynnol
- ☐ Plaid Cymru
- ☐ Plaid Geidwadol Cymru
- ☐ Plaid Lafur Cymru
- ☐ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Arall (Nodwch isod)

6. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i **Gyngor Sir** neu **Gyngor Bwrdeistref Sirol** yn y gorffennol?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Naddo (ewch i Gwestiwn 7)
- ☐ Do, a chefais fy ethol (ewch i Gwestiwn 6A)
- ☐ Do, ond ni chefais fy ethol (ewch i Gwestiwn 7)

6A. Faint yw cyfanswm nifer y **blynyddoedd** y buoch yn gwasanaethu fel **Cynghorydd Sir** neu fel **Cynghorydd Bwrdeistref Sirol**?
*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Sir neu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol.*

7. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i **Gyngor Cymuned** neu i **Gyngor Tref** yn y gorffennol?
*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Naddo (ewch i Ran 4)
- ☐ Do, a chefais fy ethol (ewch i Gwestiwn 7A)
- ☐ Do, ond ni chefais fy ethol (ewch i Ran 4)

7A. Faint yw cyfanswm nifer y **blynyddoedd** y buoch yn gwasanaethu fel **Cynghorydd Cymuned** neu fel **Cynghorydd Tref**?

*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned neu fel Cynghorydd Tref.*

## Rhan 4: Nodweddion yr ymgeisydd

8. Beth yw eich rhyw?
   *Ticiwch un blwch.*

☐ Benyw
☐ Gwryw

9. Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?

   *Ticiwch un blwch.*

☐ Ydy
☐ Nac ydy (Nodwch isod)
☐ Gwell gen i beidio â dweud

10. Ym mha ystod oedran oeddech ar eich pen-blwydd diweddaraf?
    *Ticiwch un blwch.*

☐ 18-24 oed
☐ 25-29 oed
☐ 30-34 oed
☐ 35-39 oed
☐ 40-44 oed
☐ 45-49 oed
☐ 50-54 oed
☐ 55-59 oed
☐ 60-64 oed
☐ 65-69 oed
☐ 70-74 oed
☐ 75-79 oed
☐ 80 oed neu'n hŷn

11. Oes gennych chi gyfrifoldebau gofalu?
    *Ticiwch bob un sy'n gymwys.*

☐ Oes, mae gen i gyfrifoldeb rhiant am blentyn 16 oed neu'n iau
☐ Oes, mae gen i gyfrifoldebau gofalu am aelod o'r teulu
☐ Oes, mae gen i gyfrifoldebau gofalu am rywun nad yw'n aelod o'r teulu
☐ Nac oes, nid oes gen i gyfrifoldebau gofalu am neb

12. Ydych chi’n gwybod am y Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol (a arferai gael ei alw’n Lwfans ad-dalu costau gofal) sydd ar gael i Gynghorwyr? *Ticiwch un blwch.*

- ☐ Ydw, rwy’n gwybod am y lwfans ac wedi manteiso ar y cynnig
- ☐ Ydw, rwy’n gwybod am y lwfans ond nid wyf wedi manteisio ar y cynnig
- ☐ Nac ydw, nid wy’n gwybod am y lwfans

13. Beth yw eich grŵp ethnig? *T*iciwch un blwch.

**A. Gwyn**

- ☐ Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Roma
- ☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch isod)

**B. Grwpiau cymysg neu amlethnig**

- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg neu amlethnig arall (nodwch isod)

**C. Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig**

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch isod)

**D. Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd**

- ☐ Affricanaidd
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall (nodwch isod)

**E. Grŵp ethnig arall**

- ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch isod)

| |
|---|
| |

14. Beth yw eich crefydd?

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristion (pob enwad)
- ☐ Bwdhydd
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddew
- ☐ Mwslim
- ☐ Sikh
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud
- ☐ Unrhyw grefydd arall (nodwch isod)

15. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol?

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Heterorywiol neu strêt
- ☐ Hoyw neu lesbiaidd
- ☐ Deurywiol / Bi
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud
- ☐ Unrhyw gyfeiriadedd rhywiol arall (nodwch isod)

16. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

*T*iciwch bob un sy'n gymwys.

- ☐ Yn deall Cymraeg llafar
- ☐ Yn siarad Cymraeg
- ☐ Yn darllen Cymraeg
- ☐ Yn ysgrifennu Cymraeg
- ☐ Dim un o'r uchod

17. Pa iaith y mae'n well gennych gyfathrebu ynddi'n broffesiynol?

*Ticiwch bob un sy'n gymwys.*

- ☐ Saesneg
- ☐ Cymraeg
- ☐ Arall, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (nodwch isod):

## Addysg a chyflogaeth

18. Oes gennych chi unrhyw rai o'r cymwysterau isod?
*Ticiwch bob un sy'n gymwys.*

**TGAU neu gymwysterau cyfatebol**

☐ 5 neu fwy o gymwysterau TGAU (A*-C, 9-4), Lefel O (llwyddo), TAU (gradd 1) neu Fagloriaeth Cymru: Canolradd

☐ Unrhyw gymwysterau TGAU, Lefel O neu TAU eraill (unrhyw radd), cwrs Sgiliau Sylfaenol neu Fagloriaeth Cymru: Sylfaen

**Lefel A, AS neu gymwysterau cyfatebol**

☐ 2 neu fwy o gymwysterau Lefel A, 4 neu fwy o gymwysterau Lefel AS, neu Fagloriaeth Cymru: Uwch

☐ 1 Lefel A, 2–3 Lefel AS

☐ 1 Lefel AS

**NVQ neu gymwysterau cyfatebol**

☐ NVQ lefel 4 ac uwch

☐ NVQ lefel 3, BTEC Cenedlaethol, OND neu ONC, Crefft Uwch City and Guilds

☐ NVQ lefel 2, BTEC Cyffredinol, Crefft City and Guilds

☐ NVQ lefel 1

**Lefel gradd neu uwch**

☐ Gradd, gradd sylfaen, HND neu HNC neu uwch

**Cymwysterau eraill neu ddim cymwysterau**

☐ Unrhyw gymwysterau eraill (gan gynnwys cymwysterau proffesiynol), heb wybod beth sy'n cyfateb iddynt

☐ Dim cymwysterau

19. Beth yw eich statws cyflogaeth cyfredol?
*Ticiwch bob un sy'n gymwys*.

- ☐ Mewn cyflogaeth lawnamser
- ☐ Mewn cyflogaeth ran-amser
- ☐ Hunangyflogedig
- ☐ Di-waith
- ☐ Myfyriwr llawnamser
- ☐ Myfyriwr rhan-amser
- ☐ Wedi ymddeol / Wedi ymddeol yn rhannol
- ☐ Ar absenoldeb rhiant (mamolaeth, tadolaeth, mawbysiadu etc.)
- ☐ Yn gofalu am deulu neu gartre
- ☐ Salwch hirdymor neu anabl
- ☐ Ar un o gynlluniau hyfforddiant y llywodraeth
- ☐ Gweithiwr di-dâl mewn busnes teuluol
- ☐ Gofalwr di-dâl
- ☐ Arall (nodwch isod)

20. Pa gategori sy'n disgrifio orau eich sector cyflogaeth cyfredol neu ddiweddaraf?
*T*iciwch un blwch.

- ☐ Y sector cyhoeddus
- ☐ Y sector preifat
- ☐ Y sector gwirfoddol
- ☐ Y lluoedd arfog
- ☐ Arall (nodwch isod)

21. I ba rai o'r clybiau neu'r mudiadau hyn, os o gwbl, rydych chi'n rhoi o'ch amser am ddim ar hyn o bryd?
*Ticiwch bob un sy'n gymwys*

- ☐ Mudiad elusennol
- ☐ Ysgol neu grŵp pobl ifanc
- ☐ Grŵp tenantiaid / preswylwyr neu grŵp gwarchod cymdogaeth
- ☐ Grŵp crefyddol
- ☐ Grŵp / mudiad pensiynwyr
- ☐ Clwb chwaraeon
- ☐ Grwpiau celfyddydol (e.e. drama, cerddoriaeth, celf neu grefft)
- ☐ Grŵp amgylcheddol
- ☐ Amgueddfa / safle treftadaeth
- ☐ Grwpiau cymunedol
- ☐ Clwb neu fudiad arall

## Nam neu gyflyrau iechyd

22. Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gen i beidio â dweud

23. Oes gennych chi unrhyw un neu unrhyw rai o'r canlynol?
*T*iciwch bob un sy'n gymwys.

- ☐ Nam corfforol
- ☐ Nam ar y synhwyrau
- ☐ Anabledd dysgu neu nam dysgu
- ☐ Cyflwr iechyd meddwl
- ☐ Cyflwr iechyd hirdymor
- ☐ Niwrowahaniaeth
- ☐ Arall (nodwch isod)

24. Ydych chi'n gwybod am Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru?
*Ticiwch un blwch*

- ☐ Ydw, rwy'n gwybod am y gronfa ac wedi derbyn arian ohoni
- ☐ Ydw, rwy'n gwybod am y gronfa ond heb dderbyn arian ohoni
- ☐ Nac ydw, nid wy'n gwybod am y gronfa